



Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd.

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth:
£5 y flwyddyn (lonawr-Rhagfyr)
i'w anfon at y Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd

Dr Brynley F. Roberts
Henqwert, Ffordd Llanbadarn,
Aberystwyth, Dyfed SY23 1HB
(01970 623577)

Ysgrifennydd

Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon,
Aberystwyth, Dyfed SY23 1PL
(01970 623174)

Trysorydd

Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre,
Bow Street, Dyfed SY24 5AD
(01970 820235)

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas

Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dr Rhidian Griffiths
Dr R. Geraint Gruffydd
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
E. Wyn James, Dafydd Jones
Huw Ceiriog Jones
Richard H. Lewis, Gwilym Tudur
Y Parchg Dafydd Wyn Wiliam
Huw Williams

Cyhoeddir Y Casglwr gyda
chymorth ariannol
Cyngor y Celfyddydau

YN EISIAU

Llywelyn 1282. Gwasg
Gregynog, 1982. Telir pris teg.
Gerallt Pennant (01766)
514744

Gwaith Twm o'r Nant. Gol.
Isaac Foulkes, Lerpwl. Ail arg.
1889 os yn bosib, neu 1874.
Gwyn Davies (01970) 625818

RHODDION

£8.00: Rhodri Gwyn Jones,
Caerdydd.

£7.00: R. T. Jones, Rhos.

£5.00: J. Meurig Jones, Ystrad
Meurig; Bledwyn Jones, Y
Groeslon; Rol Williams,
Waunfawr; G. C. Jones,
Maesteg; R. F. Roberts,
Abergele; Olwen Llywelyn,
Llanrug; Gerallt Hughes,
Arthog; Charles Hogg, Yr
Wyddgrug; Delyth Davies,
Caerdydd; Ann Griffith,
Chwilog.

£4.00: Olive Jones, Commins Coch.

£2.50: Gwilym Williams, Abergele.

£2.00: Di-enw.

£1.00: R. G. Williams, Wolver-
hampton; Mrs H. A. Morris,
Pwllheli.

Diolch yn fawr i chiwi am eich
cefnogaeth.

NEWID GOLYGYDD

Wedi pedair blynedd o wasanaeth a chwech o rifynnau swmpus a diddorol mae Richard Lewis, golygydd *Y Casglwr*, wedi penderfynu fod rhaid iddo roi'r gorau i'r swydd. Yr ydym yn ddiolchgar i Richard am ei waith dros y gymdeithas ac yn edrych ymlaen at gael ei gwmi yn y pwyllgorau.

Beth felly am y dyfodol? Y Pwyllgor sydd wedi paratoi'r rhifyn dwbl hwn ond yr ydym yn awr yn gwahodd

CEISIADAU AM SWYDD GOLYGYDD Y CASGLWR
i ddechrau gyda rhifyn Tachwedd/Rhagfyr 1996.

1. Bydd y Golygydd yn gyfrifol am baratoi a llywio trwy'r wasg 3 rhifyn (20 tudalen) y flwyddyn, sef Mawrth/Ebrill; Gorffennaf/Awst; Tachwedd/Rhagfyr.
2. Gall y Golygydd drefnu i wahodd eraill i gydweithio â hi/ef os dymuna.
3. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio penodi Trefnydd Hysbysebion i gydweithio â'r Golygydd.
4. Telir *honorarium* (bychan!) i'r Golygydd.

Ymholiadau a cheisiadau i'r Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur, 11 Maesyrfaon, Aberystwyth, SY23 1PL,
erbyn 17 Awst.

COFIWCH AM Y DDARLITH EISTEDDFODOL

am hanner dydd
dydd Gwener, 9 Awst

'Wales's Premier School'

Cymhellion sefydlu Coleg Llanymddyfri

Dr GARETH EVANS
Aberystwyth

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn Eisteddfod Llandeilo.

CHWARELWYR

gwaith David Haynes

Yr oedd portreadau unigryw o chwarelwyr gogledd Cymru yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, o 6 Ebrill hyd 30 Mehefin.

Gwaith David Haynes, sy'n wreiddiol o Swydd Amwythig ond bellach yn byw ym Methesda, yw'r casgliad hwn.

Datblygodd ei ddi-ddordeb yn y chwarelwyr wedi iddo ymgartrefu yn yr ardal: *'Roeddwn i'n ymwybodol iawn o'r gwahaniaeth rhwng Castell Penrhyn a thwll anferth y chwarel ei hun. Gallai'r twll lyncu Castell Penrhyn sawl gwaith trosodd ac fe ers hyn yn gofadau i'r chwarelwyr hyd ddiwedd amser. Teimlais yr hoffon ychwanegu fy argraffiadau fy hun at hanes cyfoeth y diwydiant llechi ac felly dechreuais ar gyfres o luniadau pastel a darnau ceramig.'*

Dechreuodd David Haynes — sy'n awr yn arlunydd proffesiynol — ei yrfa fel ceidwad yn Sw Caer gan edrych ar ôl y tsimpansis a'r gorilas, ond roedd y tueddiadau artistig yn rhy gryf a chychwynnodd ar gwrs BA mewn graffeg a darlunio yn 1979.

'Ychydig iawn o'r lluniau a'r ffigyrau sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw. Byddaf yn eu newid a'u datblygu wrth weithio arnynt. Hyderaf fod y dull digymell hwn yn rhoi rhywfaint o nerth iddynt. Nid yw'r lluniadau yn bortreadau o unigolion ond yn hytrach fy argraffiadau personol ydynt o sut fath o bobl a allai fod wedi bod yn gweithio yn y chwareli. Rydw i wedi ceisio cyfleu pobl wydn, ddiwylliedig, a oedd yn aml yn gweithio dan amodau creulon, gyda chysgod gormesol y llechfaen yn adlewyrchu eu bywydau.'

Gellir cysylltu â David Haynes ar (01248) 601578.

Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain

India-Cymru

Annwyl Olygydd,

Diddorol iawn oedd darllen ffrwyth gwaith ymchwil gwerthfawr Rhiell Elidir o dan y pennawd 'Faint sydd ar ôl?' yn rhifyn Gaeaf 1994/5 o *Y Casglwr*.

Mae dadansoddiad Rhiell Elidir o sefyllfa llyfrgelloedd yn perthyn i'r Methodistaidd Calfinaidd yng Nghymdeithasfa'r Gogledd yn gywir a theg ond mae'r newyddion sydd gennym ni yn dra gwahanol. Mae Eglwys Bresbyteriaid Cymru, Bethel, Heathfield Road, Lerpwl, yn bwriadu sefydlu llyfrgell i gynorthwyo gwaith Canolfan Ymchwil Ymddiriedolaeth

Gogledd-ddwyrain India-Cymru. Ein prif angen yw llyfrau, yn Gymraeg a Saesneg, yn ymwneud yn bennaf â hanes y Genhadaeth yng Ngogledd-ddwyrain India a Chymru.

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe medrai darllenwyr roi'r rhoddion hyn i ni: *Y Drysorfa, Y Cenhadwr, Y Casglwr, Y Traethodydd, Y Goleuad, Y Faner, Goleuad Cymru, Y Cromel, Trysorfa'r Plant, Y Lladmerydd, cyfrolau ar hanes y Genhadaeth*

a Chenhadon ac unrhyw weithiau eraill perthnasol.

Yr ydym yn bwriadu cyhoeddi cyfrolau safonol ar y Genhadaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg o leiaf, maes o law.

Os oes gennych ryw beth i'w gynnig i ni yna cysylltwch â ni yn ddiymdroi yn 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW, os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr iawn,

Ar ran y Llyfrgell,

W. MEIRION EVANS
(Cadeirydd)

D. BEN REES
(Cyfarwyddwr Ymchwil)